# Pwnc craidd
# Mathemateg a Rhifedd (dwyradd)

Yn TGAU Mathemateg a Rhifedd, byddwch yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gennych o destunau o fewn rhif, algebra, geometreg a data. Byddwch yn dysgu agweddau ariannol allweddol bywyd bob dydd oedolyn, fel ymdrin â slipiau cyflog, biliau a chynilion. Mae dealltwriaeth dda o gynnwys y cymhwyster hwn yn llwyfan perffaith i'r rhai sy'n gobeithio dilyn gyrfa STEM.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae 3 uned i'r cwrs:

### UNED 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu gwersi bywyd a fydd yn eich helpu i ddod yn oedolyn hyddysg iawn yn ariannol. Meddyliwch am dermau neu acronymau y gallech fod wedi clywed amdanynt fel 'Yswiriant Gwladol', 'TAW' neu 'AER' – bydd y rhain yn dod yn gyfarwydd i chi. Bydd cyfleoedd a pheryglon ariannol yn cael sylw, a byddwch yn dysgu sut i ddarllen dogfennau pwysig fel slipiau cyflog, biliau a chyfriflenni banc.

Bydd pob math o gyd-destunau'r byd go iawn hefyd yn cael eu haddysgu a'u hasesu, gan wneud yr uned hon yn berthnasol ac yn ddiddorol.

### UNED 2: Digyfrifiannell

Byddwch yn archwilio cysyniadau lle na fydd angen eich cyfrifiannell arnoch yn yr uned hon. Byddwch yn dyfnhau eich dealltwriaeth o debygolrwydd ac yn archwilio syniadau newydd o fewn algebra a geometreg, fel graffiau cwadratig a theoremau cylch.

### UNED 3: Caniateir Cyfrifiannell

Mae gan yr uned hon y pwysoliad mwyaf o'r tair uned, a gallwch gael eich cyfrifiannell wrth eich ochr. Mae llawer o drin data ac ystadegau yn yr uned hon yn ogystal â chysyniadau geometreg newydd fel Theorem Pythagoras a Thrigonometreg.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

| UNED 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd | |
|---|---|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 1 awr 45 munud<br>80 marc | 1 awr 30 munud<br>65 marc |
| Pwysoliad: 30% o'r cymhwyster | |

| UNED 2: Digyfrifiannell | |
|---|---|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 1 awr 45 munud<br>80 marc | 1 awr 30 munud<br>65 marc |
| Pwysoliad: 30% o'r cymhwyster | |

| UNED 3: Caniateir Cyfrifiannell | |
|---|---|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 2 awr<br>90 marc | 1 awr 45 munud<br>75 marc |
| Pwysoliad: 40% o'r cymhwyster | |

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

- Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o wahanol feysydd mathemateg a sut mae'r meysydd hyn yn cysylltu â'i gilydd.
- Byddwch chi'n ehangu ar eich amrediad sgiliau a thechnegau mathemategol ac yn gallu eu defnyddio a'u cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn.
- Byddwch yn meithrin sylfaen gref mewn mathemateg ariannol i'ch paratoi ar gyfer bywyd a gwaith.

## GYRFAOEDD MEWN MATHEMATEG

Gall TGAU mewn Mathemateg a Rhifedd arwain at amrywiaeth o lwybrau gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi fel: dadansoddwr ariannol, rhaglennydd cyfrifiaduron, gwyddonydd meddygol, actiwari, datblygwr meddalwedd, economegydd, dadansoddwr data neu ymchwil, cyfrifydd, athro.

DYSGWCH FWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!

